

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16 Mehefin 2020

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas

Adroddwyd fod Cyng. Furlong wedi colli ei dad yn ddiweddar ac roedd y Cynghorwyr a'r clerc eisiau cyfleu eu cydymdeimlad dwysaf iddo ef a'i deulu.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Celfyn Furlong, Gordon Owen, William Victor Owen, Beryl Salisbury a Dyfed Williams.

2. **Datganiad o ddiddordeb: - dim**

3. **Cofnodion cyfarfod 19 Mai 2020**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Llwybrau: Roedd y cwmni GMS Garden Services wedi cael rhestr o lwybrau i'w torri ond nid oedd y gwaith wedi ei ddechrau. Nodwyd bod difrod pellach ar lwybr troed 15 wrth y fynedfa i Ysgubor Bach. Byddai'r clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir.

2. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion:

Roedd Kenton Jones Ltd. wedi cyhoeddi diweddariad ar yr ymateb gan blant lleol ar y math o offer yr hoffent ei gael ar y cae chwarae. Byddai'r clerc yn gofyn iddynt ymgynghori â'r Cyngor Cymuned (fel deiliaid y brydles a'r corff fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r offer) cyn gwneud penderfyniad terfynol.

5. **Penderfyniadau Cynllunio: dim**

6. **Ceisiadau Cynllunio - dim**

7. **Materion Ariannol / Financial Matters**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod 1.5.2020 hyd at 31 Mail 2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £14,365.98, Cyfrif Cadw £3,936.63

7.1 Cafwyd cadarnhad gan yr Archwilydd Mewnol fod y cyfrifon terfynol mewn trefn, roedd yr SCC wedi ardystio'r cyfrifon. Cytunwyd i dderbyn y cyfrifon, byddai'r Cadeirydd yn llofnodi'r ffurflen a'r dogfennau ategol cyn eu cyflwyno i'r Archwilwyr

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Allanol.

8. Taliadau i'w gwneud / Payments to be made

Cyflog (Mai)	£237.09	GMS	£108
Archwilydd Mewnol	£120		

Cytunwyd i dalu y rhain

9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Datganiad: Cyngor Môn yn troi eiddo gwag yn gartrefi newydd.
2. Medrwn Môn 'Cronfa Ymateb Cymunedol' – Grantiau Bach.
3. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Atodol - yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal.
4. Tarian Cymru - Cefnogaeth Gan Gyngorau Môn – cytunwyd i beidio a cyfrannu.
5. Chwaraeon dŵr – cafwyd cwyn bod rhywun yn hwylyrddio ar Lyn Penrhyn a hynny yn ystod cyfnod pan fod adar yn nythu, gall hyn arwain at fwy yn defnyddio'r llyn ar gyfer chwaraeon dŵr. Y gobaith oedd y byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn delio ag unrhyw droseddau gan bersonél y Llu Awyr. Roedd y clerc am gael gwybod beth yw protocol y RSPB ynglŷn â gwneud cwynion.
6. E-fwletin Covid-19 Medrwn Mon Rhifyn 5
7. Gwasanaeth Cyfeilio Dros Y Ffôn Macmillan

10. Adroddiadau Cyngorwyr

1. Hysbysodd Cyng. Gwilym O.Jones fod yna breswlydd wedi cynnig trin y fainc oedd angen sylw wrth y cae chwarae, roedd yr Aelodau'n ddiolchgar o'r cynnig.

11. Cyfarfod Nesaf – 2 Gorffennaf 2020.

Llofnod.....Cadeirydd.....